**Pwyllgor Cyfle Cyfartal EOC-03-99(min)**

**COFNODION**

**Dyddiad:** 21 Hydref 1999

**Amser:** 9.30

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1

**Presennol:** Aelodau

| | |
|---|---|
| Jane Hutt (Cadeirydd) | Bro Morgannwg |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Richard Edwards | Preseli Sir Benfro |
| Edwina Hart | Gyr |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Maesyfed |
| Kate Bennett | Comisiwn Cyfle Cyfartal |
| Howard John | Anabledd Cymru |

Swyddogion

| | |
|---|---|
| Kate Cassidy | Pennaeth Adran Gweinyddiaeth, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus |
| Charles Willie | Pennaeth Uned Polisi Cydraddoldeb |
| Matthew Quinn | Uned Bolisi |

| | |
|---|---|
| Andrew George | Clerc |
| Julie Bragg | Dirprwy Glerc |

Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Glyn Davies a Janet Ryder.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd**

1.1 Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy groesawu pawb, yn enwedig Kate Bennett a oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf fel Cyfarwyddwraig y Comisiwn Cyfle Cyfartal; a chyfranogwyr i'r Sioe Deithiol Gwrando ar Ferched a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn ddiweddar a oedd yn bresennol yn yr oriel gyhoeddus: Jean Gale o'r YWCA, Suzanne Smith o MEWN Cymru a Rhian Davies o Glymblaid Caerdydd a'r Fro i'r Anabl.

1.2 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n darparu adroddiad ysgrifenedig mewn da bryd ar gyfer pob cyfarfod yn y dyfodol. Ar yr achlysur hwn dymunai amlygu'r pwyntiau canlynol:

- roedd y Cynulliad newydd gynnal dadl ar Gronfeydd Strwythurol Ewrop ac roedd yn bwysig sicrhau ei fod yn mynd i'r afael yn llawn â materion cydraddoldeb. Roedd Dogfen y Rhaglen Sengl yn y broses o gael ei hadolygu gan y gydysgrifenyddiaeth yng ngoleuni sylwadau'r Cynulliad. Gwahoddasid y cyrff cydraddoldeb i gyflwyno eu sylwadau wrth y cam ymgynghorol. Byddai'n rhaid i'r Cynulliad derfynoli ei safbwyntiau ar y ddogfen cyn ei chyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd ar ddiwedd Hydref. Byddai gan y Comisiwn wedyn bum mis i ymateb. Roedd yn annhebygol y byddai cymeradwyaeth yn dod tan o leiaf Ebrill 2000. Y cam nesaf ar ôl hynny fyddai cynhyrchu Dogfen Ategu'r Rhaglen a fyddai'n nodi'r meini prawf manwl ar gyfer Projectau dan Amcan Un. Byddai angen i'r sefydliadau cydraddoldeb a'r Pwyllgor chwarae rhan agos wrth baratoi'r ddogfen hon. Cytunodd y Pwyllgor y dylent drafod yr eitem hon mewn manylder mewn cyfarfod yn y dyfodol.

- Roedd y Cadeirydd wedi cyfarfod â Chlymblaid Genedlaethol Merched Cymru (a oedd yn awr mewn cysylltiad â swyddogion i fynd â materion ymlaen) a byddai'n cyfarfod â Chyngres Undebau Llafur Cymru a Chyngor Ffoaduriaid Cymru i drafod materion mewnfudo yn yr ychydig wythnosau nesaf. Byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor am y cyfarfodydd hyn.

- yn dilyn y drafodaeth am yr ymgyrch 'Gweld y Person' yn y cyfarfod diwethaf, roedd wedi ysgrifennu i'r Adran Addysg a Chyflogaeth. Roedd Margaret Hodge, Gweinidog i'r Anabl, wedi ateb a darparwyd yr ymateb hwnnw er gwybodaeth yr aelodau.

- roedd cyngor cyfreithiol yn cael ei geisio i egluro i ba raddau y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol gyfeirio Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i ymarfer eu swyddogaethau neu bwerau gan roi ystyriaeth ddyledus i gydraddoldeb cyfle i bawb. Darperid papur ar gyfer cyfarfod Tachwedd, er y nododd y Cadeirydd y byddai'n well ganddi i'r Pwyllgor ddatblygu deialog â chyrff o'r fath yn hytrach na dibynnu ar ddeddfwriaeth.

1.3 Yn y drafodaeth a ddilynodd gwelodd yr Aelodau fod rôl y Pwyllgor o hybu arfer gorau mewn cydraddoldeb yn ymledu i bob corff yr oedd y Cynulliad yn gweithio ag ef, ei gefnogi a'i noddi. Awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor ystyried trafodion y Cynulliad ei hun yng ngoleuni ei

ddyletswydd statudol i ystyried cydraddoldeb cyfle wrth reoli ei fusnes. Gofynnwyd i'r Ysgrifenyddiaeth i ddarparu brîff ffeithiol ar adrannau perthnasol Adroddiad Ymgynghorol Grp y Cynulliad Cenedlaethol a'r Gorchmynion Sefydlog.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Adroddiad Cynnydd ar y Rhaglen Waith**
**Papur: EOC-03-99(p.1) –Arweiniad Cyflwyno ar gyfer Swyddogion**

2.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem hon a ddeliodd â strategaeth y Pwyllgor i brif-ffrydio cydraddoldeb drwy bob rhan o waith y Cynulliad. Dosbarthwyd copi o lythyr a ysgrifennwyd gan y Cadeirydd at Ysgrifenyddion y Pwyllgorau Pwnc yn esbonio'r strategaeth a rhan y Pwyllgor ynddi. Unwaith y cwblheir yr archwiliad cydraddoldeb o feysydd polisi penodol, gallai'r Pwyllgor gwrdd â'r Ysgrifennydd Cynulliad a Chadeirydd y Pwyllgor priodol i drafod y canlyniadau. Gallai'r Cadeirydd gynnal trafodaeth bellach â'r Ysgrifennydd Cynulliad a Chadeirydd y Pwyllgor perthnasol.

2.2 Adroddodd Charles Willie ar y cynnydd a wnaed gyda'r archwiliad hyd yn hyn. Eisoes cynhaliwyd 32 cyfweliad allan o'r 51 a fwriadwyd â Phenaethiaid Adrannau'r Cynulliad Cenedlaethol. Bwriedir cynnal y gweddill ym mis Tachwedd, a byddai swyddogion yn adrodd i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2000. Seiliwyd y cyfweliadau ar holiadur a gyffyrddodd â phedwar prif faes: strategaeth ac amcanion busnes; ymrwymiad ar y lefel uchaf; monitro ac arweiniad a hyfforddiant. Hyd yn hyn mae'r prif ganlyniadau yn cynnwys mwy o ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ac ystyriaeth o sut y dylid mynd i'r afael â hwy; y gred bod angen i'r uwch reolwyr arddangos yn fwy clir eu hymrwymiad i gydraddoldeb cyfle; diffyg cysondeb gweithdrefnau a monitro; a'r angen am arweiniad a hyfforddiant ar faterion cydraddoldeb. Ar yr ochr gadarnhaol, arsylwyd llawer o arfer da a chydnabu nifer o bobl a gafodd eu cyfweld fod cydraddoldeb yn werth craidd i'w timau.

2.3 Nododd yr Aelodau fod y canfyddiadau yn nodweddiadol o'r rhan fwyaf o sefydliadau mawr ac felly nid oedd syndod yn eu cylch. Cynigiwyd y dylai codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant gynnwys Aelodau'r Cynulliad a'u staff cynorthwyol. Gofynnodd y Cadeirydd i'r swyddogion ystyried sut y gellid cyflawni hyn yn y modd mwyaf effeithiol ac i adrodd yn ôl wedyn.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Gwrando ar Ferched**

3.1 Cyflwynodd Kate Cassidy adroddiad ar "Wrando ar Ferched", menter a oedd yn cael ei harwain gan Swyddfa'r Cabinet. Roedd sioe deithiol wedi cael ei chynnal yng Nghymru. Roedd yr ymarfer wedi dangos mai'r materion pwysicaf i ferched Cymru oedd cadw'r ddysgl yn wastad rhwng gwaith a bywyd y cartref; cael pobl i wrando ar eu barn; trais; a'r bwlch cyflogau. Adlewyrchodd y rhain ganfyddiadau DU ar y cyfan.

3.2 Roedd materion penodol yr oedd yn rhaid i'r Cynulliad eu hystyried, megis mynediad i hyfforddiant a gwaith ar gyfer merched mewn ardaloedd gwledig; darparu modelau rôl gweladwy i ferched du ac o leiafrifoedd ethnig; adeiladu amrywiaeth i mewn i'r Cwricwlwm Cenedlaethol; darpariaeth arferion gweithio'n hyblyg a gofal plant fforddadwy; rhoi gwerth ar ofalwyr; a darparu cyfleoedd gyrfa i ferched ifanc.

3.3 Nododd Aelodau ymateb y Llywodraeth. Teimlwyd nad oedd cynhyrchu Adroddiad ar arfer o'r fath mewn diwyg "cylchgrawn menywod" yn briodol, ac na fyddai'n rhoi digon o wybodaeth i'r darllenydd. O fewn cyd-destun Cymreig, awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor ystyried cynigion gweithredu sy'n deillio o'r fenter, yn un o gyfarfodydd y dyfodol.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Adroddiad MacPherson**

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Roger Mackenzie o Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol; Rob Cater a Jazz Iheanacho o Race Equality First a ymunodd â'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon. Siaradodd Mr Mackenzie am ran ei Undeb yn ymgyrch Stephen Lawrence. Roeddent wedi ystyried hyn i fod yn fater pwysig o hawliau sifil ac roedd swyddog undeb llawn amser wedi'i secondio i'r ymgyrch i ddarparu cymorth ymarferol. Roedd gan Adroddiad MacPherson oblygiadau difrifol nid i Heddlu Llundain yn unig ond hefyd i bawb sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus. Gallai ei argymhellion ddarparu'r cyfle am wir newid pe bai pobl mewn swyddi uwch yn eu cymryd o ddifrif ac yn arwain o'r blaen wrth eu gweithredu. Roedd y Cynulliad mewn safle da i wneud hyn am ei fod yn dechrau o'r newydd.

4.2 Dylai unrhyw sefydliad sy'n dymuno ystyried cydraddoldeb hiliol fynd i'r afael â thri chwestiwn syml a oedd wedi cael eu hawgrymu gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol fel man cychwyn defnyddiol:

- A ydym yn gweithredu yn deg?
- A yw'r gwasanaeth a ddarparwn yn cyrraedd pob un o'r cymunedau y mae wedi'i fwriadu ar eu cyfer ac a yw'n diwallu eu hanghenion?
- A ydym yn defnyddio'r un safonau proffesiynol wrth asesu hyn?

Teimlai fod yr archwiliad cydraddoldeb yn ffordd werthfawr ymlaen yn y broses hon a dylai'r Cynulliad fanteisio ar y cyfle i'w hybu i sefydliadau eraill.

4.3 Edrychodd Jazz Iheanacho a Rob Cater ar adroddiad MacPherson yn fwy manwl yng ngoleuni eu rhan hwy yn yr ymchwiliad a'u profiad o ddelio â materion yn ymwneud â hil yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Pwysleisiasant arwyddocâd datganiad cynnar Syr William MacPherson fod gan yr ymchwiliad oblygiadau i bob darparwr gwasanaeth cyhoeddus ac nad oedd yn ymweud â digwyddiad hiliol ynysedig yn Llundain yn unig. Roedd hyn o bwys arbennig o ystyried oed ifanc llawer o'r bobl sy'n gyfrifol am ddigwyddiadau o aflonyddu hiliol a chamwahaniaethu.

4.4 Gwnaeth yr Adroddiad 70 o argymhellion o dan 13 prif bennawd gyda goblygiadau i sefydliadau o'r Cynulliad ei hun i lawr i gyflogwyr bach. Byddai rhai yn arwain at ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd felly byddai angen i'r Cynulliad fod yn wyliadwrus i'r newidiadau a ddêl. Un o'r prif feysydd oedd addysg oherwydd bod annog pobl ifanc i gofleidio cydraddoldeb cyfle yn hanfodol. Dylai'r Cwricwlwm Cenedlaethol gynnwys y materion hyn a dylid annog ESTYN i'w cynnwys yn eu harolygiadau ysgol.

4.5 Mewn trafodaeth eang ei chwmpas, cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant, Rosemary Butler, i'w gwahodd i amlinellu sut y gweithredir argymhellion yr Adroddiad am addysg yng Nghymru. Pwysleisiwyd hefyd yr angen i godi ymwybyddiaeth mewn ardaloedd â chymunedau du a lleiafrifoedd ethnig bach. Gofynnodd y Cadeirydd i'r swyddogion lunio cynllun gweithredu i fynd â'r argymhellion perthnasol ymlaen (sydd o bosibl yn cynnwys cynhadledd a fydd yn cwmpasu cyrff cyhoeddus) mewn ymgynghoriad â gweithgor gwirfoddol o'r Pwyllgor.

**Eitem 5 ar yr Agenda: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
**Papur: EOC-02-99(min)**

5.1 Caiff y cofnodion hyn eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 11 Tachwedd.

5.2 Daeth y cyfarfod i ben am 12.35.